GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales	**Rhif Cyfeirnod:** AW16 – TP07 **Rhif Fersiwn:**2 **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:**31/12/2026

Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol

Cyflwyniad a Nod

Mae'r Weithdrefn hon yn cyflwyno'r Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (TAIDC) ac yn esbonio sut mae'n ofynnol i staff ryngweithio ag ef.

Polisïau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Cysylltiedig
Polisi Llywodraethu Gwybodaeth

Cwmpas
Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i holl gyflogeion Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd	Mae'r weithdrefn hon yn amodol ar yr AEGI a gwblhawyd ar gyfer Polisi AEGI Llywodraethu Gwybodaeth y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth
Cymeradwywyd gan	Y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth
Dyddiad Cymeradwyo	08/12/2022
Dyddiad Adolygu	31/12/2026
Dyddiad Cyhoeddi:	11/01/2023
Cyfarwyddwr/ Cyfarwyddwr Gweithredol Atebol	Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd.
Awdur	Lisa Partridge Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych chi'n ei defnyddio yw'r un ddiweddaraf naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r Tim Llywodraethu Corfforaethol.

Crynodeb o adolygiadau/gwelliannau

Rhif fersiwn	Dyddiad Adolygu	Dyddiad Cymeradwyo	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o'r Gwelliannau
1		9.06.17	19.06.17	Gweithdrefn newydd
1.1			31.08.22	Rhif cyfeirnod wedi'i ddiweddaru o PHW 60/TP01 i PHW STP05
2	1/11/22	08/12/2022		Ailysgrifennu helaeth

1 Cyflwyniad

Mae'r Weithdrefn hon yn cyflwyno'r Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (TAIDC) ac yn esbonio sut mae'n ofynnol i staff ryngweithio ag ef.

Fel rheolydd data cofrestredig o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am brosesu data personol dros 3m o bobl yng Nghymru. Un o gyfrifoldebau'r sefydliad yw gallu dangos ein bod yn rheolydd data cyfrifol ac o'r herwydd rydym yn atebol i'r cyhoedd ac i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

I arddangos atebolrwydd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio ystod o fesurau, ac un ohonynt yw system TAIDC.

Teclyn archwilio awtomataidd yw TAIDC sy'n cael ei ddarparu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac sy'n gysylltiedig â'r systemau gwybodaeth glinigol canlynol:

- Porth Clinigol Cymru (WCP)
- Gwasanaeth Demograffeg Cymru (WDS)
- System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CANISC)
- Sgrinio Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen (ASIMS)
- Sgrinio Coluddion Cymru (BSIMS)
- System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS)
- System Imiwneiddio Cymru (WIS)
- System Integredig Plant a Phobl Ifanc (CYPRIS)
- MYRDDIN
- Dewis Fferyllfa

2 Pwrpas TAIDC

Nid yw TAIDC yn newid dim ynglŷn â'r ffordd y mae disgwyl i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru weithio, ac nid yw'n newid ychwaith y telerau a'r amodau i staff nac unrhyw brosesau disgyblu a all godi o dorri Polisi.

Mae TAIDC yn darparu trywydd archwilio i'r sefydliad i ddangos pwy sydd wedi cyrchu data personol defnyddwyr gwasanaeth a phryd. Yna gall rheolwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod unrhyw ddata sy'n cael ei gyrchu yn cael ei wneud yn briodol ac yn unol â Pholisïau a Gweithdrefnau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

3 Cyfrinachedd

Atgoffir staff fod y Polisi Llywodraethu Gwybodaeth yn glir iawn na ddylid cyrchu data personol at unrhyw ddibenion heblaw lle mae'n ofynnol er mwyn iddynt gyflawni eu gwaith. Ni chaniateir i staff weld unrhyw ddata personol, gan gynnwys eu cofnodion iechyd eu hunain, at unrhyw ddibenion eraill.

4 Defnyddio systemau at ddibenion hyfforddi

Ni chaniateir defnyddio gwybodaeth fyw at ddibenion hyfforddiant.

Gellir cael at amgylcheddau hyfforddi yn:

- ASIMS
- BSIMS
- CANISC
- LIMS
- WDS

Nodyn – Mae WDS yn dal y cofnodion canlynol y gellir eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Rhif GIG	Enw teulu	Enw Cyntaf
1231231234	TEST	BABY1
1212121212	TEST	CAS
7080545226	TEST	LLWYN
7080558131	TEST	PRACTICE SPLIT
DUMMY6	MOUSE	MO

5 Rolau a chyfrifoldebau

Bydd pob aelod o staff yn:

- Cyrchu data personol am resymau'n ymwneud â'u gwaith yn unig

Bydd y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn:

- Cynnal proses ar gyfer cwestiynu TAIDC er mwyn cynnal gwiriadau archwilio rheolaidd ar gyrchu data personol
- Hysbysu'r rheolwr priodol pan nodir achos posibl o dorri Polisi

trwy TAIDC
- Adrodd yn rheolaidd ar ganlyniadau archwiliadau o'r fath i'r Tîm Gweithredol Busnes

Bydd pob rheolwr yn:

- Ymchwilio fel blaenoriaeth i unrhyw hysbysiad gan y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth am achos posibl o dorri Polisi neu Weithdrefn a nodwyd trwy TAIDC
- Ymdrin ag unrhyw achosion o dorri Polisi neu Weithdrefn yn unol â Pholisïau Adnoddau Dynol Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Rhoi gwybod am ganfyddiadau'r ymchwiliad i'r Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth o fewn 14 diwrnod i gael yr hysbysiad.

6 Gweithdrefn

Yn dilyn rhybudd gan TAIDC sy'n nodi mynediad amhriodol posibl at wybodaeth, bydd hysbysiad e-bost yn cael ei roi i'r rheolwr priodol gan aelod o'r Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth. Fel arfer, hwn fydd rheolwr llinell y sawl sy'n cyrchu'r wybodaeth. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys ffurflen syml y mae'n rhaid ei llenwi a'i dychwelyd i'r Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth.

Bydd y rheolwr yn ymchwilio fel blaenoriaeth i ganfod a oes rheswm clinigol neu weinyddol dilys dros y gweithiwr yn cyrchu'r cofnodion.

Os yw'r rheolwr yn fodlon bod rheswm clinigol neu weinyddol dilys dros y cyrchu, mae'n cadarnhau felly i'r Gwasanaeth Llywodraethu Gwybodaeth drwy ymateb i'r e-bost hysbysu cychwynnol.

Os nodir y gallai'r cyrchu fod yn amhriodol, yna dylai rheolwyr gysylltu â'r adran Pobl a Datblygu Sefydliadol a dylid cynnal unrhyw ymchwiliad yn unol â Pholisi Disgyblu Iechyd Cyhoeddus Cymru.

7 Gofynion hyfforddi

Bydd yr holl weithwyr yn cael gwybod am y weithdrefn adeg cychwyn gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a gellir gweld copïau hefyd ar fewnrwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'n ofynnol i holl weithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth bob dwy flynedd.

8 Monitro cydymffurfiaeth

Bydd y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn monitro'r weithdrefn hon i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol a sicrhau ei bod wedi'i gweithredu'n effeithiol.